Os hoffech gael cyngor annibynnol, cefnogaeth neu wybodaeth gallwch gysylltu â SNAP Cymru.

- 0808 801 0608
- enquiries@snapcymru.org
- www.snapcymru.org/contact

Os na chaiff anghytundeb ei ddatrys gyda'ch ysgol, gallwch gael help gan eiriolwr.

Mae eiriolwr yn rhywun sy'n siarad ar ran rhywun arall. Gall wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth a sut rydych chi'n teimlo. Cyswllt:

- 0808 801 0608
- enquiries@snapcymru.org
- www.snapcymru.org/contact

Os nad ydych yn hapus o hyd ac nad yw eich ysgol wedi mynd i'r afael â'ch pryder, gallwch ofyn i'r Awdurdod Lleol helpu

Mae gan yr Awdurdod Lleol bobl a all eich helpu a chynnig datrys anghydfodau. Cysylltwch â:

- 029 2087 2731
- LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk

**Ceir rhagor o wybodaeth yn: Gwasanaethau Addysg Caerdydd:**
Cardiff Education Services: www.cardiff.gov.uk/ALN
Welsh Government: www.llyw.cymru

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

Crëwyd Hydref 2023

**Taflen 4**
Gwybodaeth i rieni

# Canllaw ar GYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL (CDU)

**Os oes angen cymorth ychwanegol ar eich plentyn sy'n wahanol i'r hyn sydd ar gael fel arfer i bob dysgwr arall, gall olygu bod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) arno.**
Mae plant gydag ADY angen help ychwanegol i ddysgu. Gall hyn fod oherwydd bod ganddyn nhw anhawster neu anabledd dysgu. Mae dysgu yn anoddach iddyn nhw nag i blant eraill o'r un oedran.

Os oes ganddyn nhw ADY bydd ganddyn nhw Gynllun Datblygu Unigol (CDU)

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

## Beth sydd yn y CDU?

- Enw
- Oedran
- Yr enw yr hoffech ei ddefnyddio
- Rhywedd/rhagenwau
- Cyfeiriad
- Enw'r ysgol
- Sut rydych yn cyfathrebu orau
- Pwy sy'n gofalu am eich CDU
- Proffil Un Dudalen
- Disgrifiad o'ch ADY
- Y ddarpariaeth a fydd ar waith i'ch cefnogi yn yr ysgol a phwy fydd yn gwneud hynny
- Digwyddiadau allweddol yn eich bywyd
- Cofnod gwybodaeth
- Trefniadau pontio
- Trefniadau trafnidiaeth

**CDU:** Cynllun Datblygu Unigol. Cynllun y cytunwyd arno'n nodi'r unigolyn a gaiff ei gefnogi, gyda beth y caiff ei gefnogi a sut y caiff ei gefnogi.

**Cydlynydd Dynodedig**
Bydd oedolyn yn yr ysgol sy'n eich adnabod yn dda yn eich helpu ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am ADY a CDUau. Gelwir y person hwn yn Gydlynydd Dynodedig.

**Cydlynydd ADY:**
Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

### Pwy fydd yn cael CDU?

Yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol fydd yn penderfynu a oes gan ddysgwr ADY sy'n gofyn am gymorth ychwanegol yn yr ysgol. Os felly, bydd CDU yn cael ei ysgrifennu.

### Pwy sy'n ysgrifennu CDU?

Fel arfer, caiff cynlluniau eu hysgrifennu gan ysgolion gyda'r dysgwr, ei deulu a phobl eraill sy'n ei adnabod. Weithiau caiff y cynlluniau eu hysgrifennu gan yr Awdurdod Lleol.

### Beth yw hyd y broses?

Gall gymryd 7 wythnos ysgol i ysgol ysgrifennu'r CDU. Gall gymryd 12 wythnos i ALl ysgrifennu'r cynllun.

### All y cynllun newid?

Rhaid adolygu'r cynllun o fewn blwyddyn. Fodd bynnag, os yw rhywbeth wedi newid yn sylweddol ym mywyd y dysgwyr, gall adolygiadau ddigwydd yn gynt. Mae adolygiad yn golygu y bydd y cynllun yn cael ei ystyried eto i sicrhau ei fod yn dal i weithio ac a oes angen newidiadau.

### Beth os oes anghytundeb?

Siaradwch â'r Cydlynydd Dynodedig neu athro dosbarth yn yr ysgol. Os oes gennych ymholiadau o hyd ar ôl hyn, gallwch gysylltu â llinell gymorth a chyngor ADY yr Awdurdod Lleol ar: Ffôn: 02920 872 731 E-bost: LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk

### Pa gymorth sydd ar gael?

Gall ffrind achos helpu dysgwr drwy gydol y broses. Gall ffrind achos fod yn ffrind agos, aelod o'r teulu, gweithiwr cymdeithasol neu athro.

**FFRIND ACHOS:** Mae ffrindiau achos yn wahanol i eiriolwyr annibynnol oherwydd eu bod yn arfer hawliau'r plentyn ar eu rhan o dan rai darpariaethau yn y Ddeddf; tra bod eiriolwyr annibynnol yn cynnig cyngor a chymorth a chynrychiolaeth. Mae ffrindiau achos yn gwrando ar y plentyn ac yn gweithio gyda nhw i sicrhau bod llais y plentyn bob amser yn cael ei gynrychioli mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

**YR HAWL I APELIO**
Mae gan ddysgwyr a rhieni yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol.

**Datrys Anghydfod**
Mae Datrys Anghydfod yn golygu bod yr holl bobl berthnasol yn cyfarfod i gytuno ar ffordd ymlaen.